

AMGUEDDFA CYMRU

Polisi a Strategaeth Dysgu a Mynediad

Tuag at Amgueddfa Ddysg o Safon Ryngwladol

Ysbrydoli pobl i wneud synnwyr o'r byd
trwy gof, rheswm a dychymyg

Nod y papur hwn yw creu strategaeth ddysgu integredig, cynhwysfawr a chydgysylltiedig ar draws holl amgueddfeydd a disgyblaethau curadurol Amgueddfa Cymru.

Yr hyn y bwriedir ei gyflawni yw helpu'r cyhoedd i ddeall, dehongli a mwynhau'r casgliadau trwy sicrhau bod amodau mynediad atynt, y ddarpariaeth a'r gefnogaeth yn ardderchog gyda chydweithrediad pawb sy'n gweithio yn Amgueddfa Cymru.

Hydref 2005
Diweddariad 2011

Polisi a Strategaeth Dysgu a Mynediad Crynodeb Gweithredol

Y Nod:

Lluniwyd y polisi er mwyn egluro sut y gall yr Adran Ddysgu gefnogi'r Amgueddfa yn ei hymgais i fod yn Amgueddfa Ddysg o Safon Ryngwladol.

Bwriad y ddogfen hon yw bod yn fframwaith datblygu ar gyfer gwella gwaith yr Amgueddfa ym mhob maes a disgwylir i'r sefydliad cyfan ei defnyddio.

Ymhlith dibenion y polisi mae:

- ysgogi syniadau, meddwl clir ac arferion da;
- ceisio sicrhau bod pobl yn yr Amgueddfa a thu hwnt yn deall yr agenda dysgu a mynediad;
- dangos sut y mae gwaith yr Amgueddfa'n cynnal ei swyddogaeth fel sefydliad sy'n dysgu a'n Gweledigaeth ni ar gyfer y dyfodol.

O ran nodau polisi, mae'n ceisio gosod sylfaen fel y gall yr Amgueddfa:

- hybu gwerthusiad beirniadol o fentrau dysgu a mynediad;
- hybu ymwybyddiaeth o wahanol ffyrdd o ddysgu, cyd-destunau dysgu a chyfleoedd i ddysgu;
- cynnig sylfaen ar gyfer datblygu syniadau, dulliau o weithio a phrojectau a fydd yn cyfrannu at waith yr Amgueddfa;
- cynnig ffyrdd y gall unigolion a grwpiau gyfrannu yn ôl eu cryfderau a'u swyddogaethau.

Y Broses:

Ysgrifennwyd y Polisi a'r Strategaeth yn dilyn nifer o weithdai a seminarau mewnol i staff. Yn y rhain, trafodwyd materion a syniadau'r staff ochr yn ochr â barn arbenigwyr allanol. Cyfeiriwyd at y fframwaith *Annog Addysg* hefyd wrth lunio'r cynllun.

Egwyddorion Allweddol:

Yn unol ag egwyddorion allweddol Polisi Dysgu a Mynediad Amgueddfa Cymru, mae'n ofynnol i'r sefydliad:

1. Ehangu cysylltiadau â chynulleidfaoedd amrywiol a chynnal cyfleoedd iddynt.
2. Buddsoddi mewn lleoliadau a gofodau dysgu.
3. Bod yn arbrofol a gwella'r profiadau dysgu a gynigir.
4. Sefydlu a dathlu dysgu trwy'r sefydliad cyfan a thu hwnt.
5. Cryfhau ein gallu i wneud gwaith ymchwil a chanlyniadau ein gwaith ymchwil er mwyn cael mwy o effaith.

Gweithredu:

Mae'r pum egwyddor allweddol yn rhai lefel uchel a hirdymor. Mae rhai o'r gosodiadau'n adlewyrchu'r sefyllfa ar hyn o bryd ac eraill yn rhai i anelu atynt. Yn ogystal â'r rhain, defnyddir dangosyddion perfformiad, mesurau a thargedau yng Nghynllun Gweithredol a Chynllun Corfforaethol yr Amgueddfa.

TROSOLWG O'R POLISI A'R STRATEGAETH DYSGU A MYNEDIAD

CYFLWYNIAD

Yr Agwedd Gymreig
Yr Agwedd Ryngwladol

1. Y POLISI

Y Broses o Lunio'r Polisi
Creu Amgueddfa Ddysg o Safon Ryngwladol

2. Y STRATEGAETH

Ehangu cysylltiadau â chynulleidfaoedd amrywiol a chynnal cyfleoedd iddynt

Ffyrdd o Ddysgu
Gwahanol Fathau o Gysylltiadau
Rhwydweithiau a Phartneriaethau
Y Polisi Casglu
Rhaglennu
Deialog
Amrywiaeth Staff

Buddsoddi mewn lleoliadau a gofodau dysgu

Archwilio Gofodau
Creu Gofodau Dysgu
Bywiogi Gofodau
Gofodau Dysgu Rhithwir

Bod yn arbrofol a gwella'r profiadau dysgu a gynigir

Arloesi
Gwaith Ymchwil Astudiaethau Ymwelwyr
Gwerthuso
Canlyniadau Dysgu

Sefydlu a dathlu dysgu trwy'r sefydliad cyfan a thu hwnt

Sicrhau bod Dysgu'n Ganolog i'n Gwaith
Hyrwyddo a Dathlu'r Amgueddfa fel Canolfan Ddysg
Datblygu ein Sgiliau
Strategaethau Ehangach ar gyfer Hyfforddi a Datblygu
Sgiliau sy'n Ymwneud â Dysgu

Cryfhau ein gallu i wneud gwaith ymchwil a chanlyniadau ein gwaith ymchwil er mwyn cael mwy o effaith

Cymru a'r Byd: Amgueddfa Ymchwil o Safon Ryngwladol
Cysylltiadau Strategol
Gwaith Ymchwil Newydd
Proffil a Lledaenu Gwybodaeth
Cysylltu Gwaith Ymchwil â'n Rhaglenni Dysgu

ATODIADAU

1. Diffiniadau

Mynediad

Cynhwysiad Cymdeithasol

2. Y Sefydliad sy'n Dysgu

3. Y mathau o Weithgareddau Dysgu a gynigir gan Amgueddfa Cymru:

Dysgu Ffurfiol

Dysgu Gydol Oes

Datblygu Cynulleidfaoedd

Dysgu mewn Orielau

E-ddysgu

Datblygu Staff

Cyflwyniad

Pwrpas y ddogfen hon yw cyflwyno polisi'r Amgueddfa ar Ddysgu a Mynediad. Mae'n cyfrannu at draddodiad maith o weithgareddau addysgol sy'n deillio o gyfrifoldeb sylfaenol yr Amgueddfa i addysgu'r cyhoedd. Ar yr un pryd, mae'n cyflwyno syniadau newydd am addysg a dysgu mewn amgueddfeydd ac orielau.

Mae'r papur hwn yn ymwneud â'r syniad o fynediad, sydd wedi codi i frig yr agenda ddysgu ac sy'n cynnwys mynediad corfforol a mynediad deallusol. (Ceir trafodaeth lawnach yn Atodiad 1). Mae'n talu sylw i ddulliau dysgu sy'n addas ar gyfer cynifer ag y bo modd o ffyrdd o ddysgu a'r angen i sicrhau eu bod yn berthnasol i bobl nad ydynt yn perthyn i'r grwpiau ymwelwyr traddodiadol. Mae'n cydnabod bod pobl yn dysgu mewn gwahanol ffyrdd, mewn gwahanol gyd-destunau ac o dan wahanol amgylchiadau.

Mae amgueddfeydd, orielau a sefydliadau dysgu eraill ym mhedwar ban byd yn cydnabod pwysigrwydd polisiâu a strategaethau dysgu cadarn. Mae'r rhain yn adlewyrchu polisiâu diwylliannol, addysgol a chymdeithasol llywodraeth fodern ac yn talu sylw i'r gwahanol ffyrdd y mae dysgu'n cynnal perthnasoedd â chynulleidfaoedd.¹

Cyflwynir elfennau strategol y polisi hwn mewn perthynas â fframwaith y polisi a bwriedir iddynt fod yn berthnasol i Amgueddfa Cymru fel sefydliad. Nid yw'r ddogfen yn disgrifio pob rhaglen weithgarwch neilltuol. Yn hytrach, mae'n cyflwyno egwyddorion a dulliau a gaiff eu cynnwys er mwyn sicrhau bod y polisi'n cael ei gyflawni. Mae'n amlinellu pum thema bolisi strategol y bydd angen i'n dogfennau gweithredol craidd dalu sylw iddynt ac sy'n sail i Weledigaeth yr Amgueddfa (2004).

Yr Agwedd Gymreig

Mae Amgueddfa Cymru'n gweithredu mewn cyd-destun polisi sy'n wahanol i amgueddfeydd ac orielau mewn rhannau eraill o Brydain. Ym meysydd addysg a dysgu gydol oes, diwylliant ac iaith, cynhwysiad cymdeithasol ac e-ddysgu, mae'r Amgueddfa'n ymateb i fentrau Llywodraeth Cymru, yn hytrach na'r DCMS a'r DfES. Mae'n cyflwyno dysg mewn cyd-destun Cymreig, ochr yn ochr â sefydliadau a mentrau Cymreig eraill neu mewn partneriaeth â nhw. Mae'r rhain oll yn golygu bod Amgueddfa Cymru'n gweithredu o dan amgylchiadau gwahanol i sefydliadau cyfatebol yng ngweddill y DU.

Mae Amgueddfa Cymru'n cydweithio â CyMAL (Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru), sy'n rhoi cefnogaeth i amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd yng Nghymru. Mae CyMAL yn gweithredu ar egwyddorion gwahanol i'r Cyngor Amgueddfeydd, Llyfrgelloedd ac Archifau (MLA) gynt, oedd yn rhoi

¹ Trafodwyd y defnydd o'r term 'cynulleidfaoedd' wrth drafod datblygu polisiâu. Roedd rhai'n ei wrthwynebu am ei fod yn rhy oddefol ac nad oedd yn cyfleu ein hawydd i sicrhau bod profiad ein hymwelwyr yn cynnwys cymryd rhan weithredol. Felly, lle mae'n briodol, defnyddiwyd geiriau eraill fel 'defnyddwyr', 'ymwelwyr' a 'chyfranogwyr'. Fodd bynnag, rydym yn sylweddoli bod llawer o amgueddfeydd eraill yn defnyddio'r term 'cynulleidfa' a bod 'datblygu cynulleidfaoedd' yn cyfleu'r syniad o ddarpar ymwelwyr y gobeithiwn eu denu.

cefnogaeth draws-sectoraidd yn Lloegr, er bod yr egwyddorion hynny'n cyd-reddeg o bryd i'w gilydd. Yn neilltuol, mae CyMAL ac Amgueddfa Cymru wedi cydweithio i lunio Strategaeth Datblygu Partneriaeth a Chynulleidfaoedd sy'n wahanol i'r mentrau fu'n cefnogi canolfannau rhanbarthol Lloegr a grëwyd gan raglen 'Renaissance in the Regions' yr MLA.

Mae Amgueddfa Cymru'n gweithio'n ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan elwa ar waith Llywodraeth Cymru ym maes iaith ac ar Strategaeth Brif-ffrydio Iaith Gymraeg a Chynllun Iaith Gymraeg yr Amgueddfa ei hunan. Yn y cyd-destun hwn, fel mewn eraill, bu'n edrych yn ddiweddar ar bolisiâu a strategaethau sefydliadau y tu allan i'r DU am enghreifftiau o arferion da a chymaryddion.

Mae'r ffactorau gwahanol ac amrywiol hyn yn cynnig cyfleoedd a sialensiau i ddatblygu rhaglen dysgu gydol oes ar gyfer Amgueddfa Cymru.

Yr Agwedd Ryngwladol

Yn ogystal, mae Amgueddfa Cymru'n gweithredu mewn cyd-destun Prydeinig a byd-eang. Rydym yn ymateb i faterion byd-eang, yn cyfrannu at yr arena ryngwladol ac yn cymryd rhan mewn projectau cydwladol, gan gynnwys ysgolheictod a gwaith ymchwil ar y casgliadau gyda phartneriaid o dramor. Rydym yn croesawu cynulleidfau ryngwladol i'n safleoedd a, mwyfwy erbyn hyn, trwy'r rhyngrwyd.

Mae'r rhychwant a'r cyfrifoldeb rhyngwladol hwn yn golygu bod angen i ni fod yn ymwybodol o dueddiadau a dylanwadau ehangach mewn amgueddfeydd, orielau a sefydliadau dysgu ym mhob rhan o'r byd.

1. Y Polisi

Mae'r ddogfen hon yn nodi sut y bydd Amgueddfa Cymru'n mynegi ei chyrchnodau a'i gweithgareddau fel 'sefydliad sy'n dysgu'. Mae'n cynnwys meysydd polisi eang a nifer o strategaethau cysylltiedig ar gyfer rhoi polisiâu ar waith mewn ffyrdd ymarferol. Y bwriad yw cynnig fframwaith sy'n datblygu ar gyfer gwella gwaith yr Amgueddfa yn ei holl weithgareddau.

Mae i'r polisi y dibenion a ganlyn:

- ysgogi syniadau, meddwl clir ac arferion da;
- ceisio sicrhau bod pobl yn yr Amgueddfa a thu hwnt yn deall yr agenda dysgu a mynediad;
- dangos sut y mae gwaith yr Amgueddfa'n cynnal ei swyddogaeth fel sefydliad sy'n addysgu a'n Gweledigaeth ni ar gyfer y dyfodol.

O ran nodau polisi, mae'n ceisio gosod sylfaen fel y gall yr Amgueddfa:

- 1) hybu gwerthusiad beirniadol o fentrau dysgu a mynediad.
- 2) hybu ymwybyddiaeth o wahanol ffyrdd o ddysgu, cyd-destunau dysgu a chyfleoedd i ddysgu.
- 3) cynnig sylfaen ar gyfer datblygu syniadau, dulliau o weithio a phrojectau a fydd yn cyfrannu at waith yr Amgueddfa.
- 4) cynnig ffyrdd y gall unigolion a grwpiau gyfrannu yn ôl eu cryfderau a'u swyddogaethau.

Yn fwy cyffredinol, bydd y Polisi'n helpu wrth wneud penderfyniadau strategol am adnoddau ac wrth flaenoriaethu projectau gweithgareddau o hyn ymlaen.

1.1 Y Broses o Wneud Penderfyniadau

Pan luniwyd Gweledigaeth Amgueddfa Cymru yn 2004, nodwyd mai pwrpas y sefydliad oedd:

Ysbrydoli pobl i wneud synnwyr o'r byd trwy gof, rheswm a dychymyg.

Yn ystod haf 2004, cyfarfu grŵp llywio bychan o aelodau'r Cyngor² a staff i ystyried sut y gellid egluro'r swyddogaeth hon a'i mynegi o'r newydd mewn Polisi Dysgu a Mynediad newydd. Bu gan raglen o weithdai a seminarau ar gyfer staff mewnol ran yn y gwaith o fynegi syniadau a thrafod materion, gan ddenu lleisiau a syniadau o'r tu allan hefyd. Aeth pob adran guradurol ati i archwilio'i darpariaeth addysgol a bu grwpiau safleoedd a grwpiau o wahanol feysydd gwaith yn trafod y mater hefyd.

Yn ystod y broses, cyfeiriwyd at fframwaith *Annog Addysg* y Cyngor Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd (MLA) ymhlith pethau eraill. Lluniwyd y fframwaith hwn i helpu sefydliadau i ddeall eu gwaith eu hunain ym maes dysgu

² A elwir yn Ymddiriedolwyr erbyn hyn

ac i ddatblygu eu polisïau a strategaethau a'u gwerthuso ar sail y ddealltwriaeth honno.

Yn dilyn seminarau a gweithdai'r Weledigaeth, lluniwyd adroddiad am weithgareddau dysgu cyfredol Amgueddfa Cymru, gan gynnwys y rhai yr ydym yn eu gwneud yn dda a'r meysydd y credwn fod angen eu datblygu. Ar ôl y sesiynau hyn, cafwyd tri gweithdy arall o dan arweiniad Vicky Woollard o City University ym mis Medi 2005. Daeth 'hyrwyddwyr dysgu' i'r rhain i gynrychioli gwahanol adrannau a safleoedd. Yn y gweithdai, aed yn ôl dros themâu dysgu Amgueddfa Cymru er mwyn adlewyrchu'r datblygiadau oedd yn codi o broses y Weledigaeth ac i geisio blaenoriaethu meysydd cynllunio gweithredol bras.

1.2 Creu Amgueddfa Ddysg o Safon Ryngwladol

Dangosodd proses y Weledigaeth mai sefydliad dysg yw'r Amgueddfa yn y bôn ac mai i'r perwyl hwn y gofelir am y casgliadau, yr arbenigedd a'r cyfleusterau a'u defnyddio.

Mae'r fframwaith *Annog Addysg* yn cymeradwyo diffiniad o ddysg a gafwyd gan y Campaign for Learning. Mae'n dechrau fel hyn:

'Learning is a process of active engagement with experience. It is what people do when they want to make sense of the world.'

Mae'n mynd ymlaen i esbonio y gall dysg gynnwys datblygu neu ddyfnhau sgiliau, gwybodaeth, dealltwriaeth, ymwybyddiaeth, gwerthoedd, syniadau a theimladau, neu gynyddu'r gallu i fyfyr. Dywed bod dysgu effeithiol yn arwain at newid, datblygiad a'r awydd i ddysgu mwy.

O ganlyniad i broses y Weledigaeth, mae'r Amgueddfa'n anelu at fod yn amgueddfa ddysg o safon ryngwladol. Er mwyn cyflawni'r dyhead hwn, mae'n hanfodol bod **pob** adran, tîm ac unigolyn yn cyfrannu at y dasg a bod y casgliadau'n cael eu defnyddio i'r un perwyl. Felly, bwriedir i'r Strategaeth a'r Polisi hwn gael ei ddefnyddio gan y sefydliad cyfan, nid yr Adran Ddysg yn unig.


Mae gan yr Amgueddfa fel sefydliad enw da am ei ymroddiad i addysg ers amser maith. Cawn ein cyfrif yn sefydliad y mae pobl yn dysgu ynddo a thrwyddo. O ganlyniad i broses y Weledigaeth, rydym yn ceisio sicrhau rhagoriaeth trwy ddod yn Sefydliad sy'n Dysgu, hynny yw yn sefydliad sy'n ymroi i ddysg trwy gyfuniad o'i brofiad ei hun ac arferion da mewn lleoedd eraill.

Mae Sefydliadau sy'n Dysgu yn:

- Gallu addasu i'w hamgylchedd allanol.
- Dod yn fwyfwy abl i newid.
- Datblygu dysgu ar y cyd yn ogystal â dysgu unigol.
- Defnyddio'r hyn a ddysgir i sicrhau gwell canlyniadau.

Trafodir y syniad o Sefydliadau sy'n Dysgu yn fwy trylwyr yn Atodiad 2.

Un thema waelodol yn y trafodaethau ar y Polisi Dysgu a Mynediad oedd bod angen seilio'r gwaith ar 'gylch daionus' yn unol â'r syniad o Sefydliad sy'n Dysgu.



Er mwyn bod yn amgueddfa ddysg o safon ryngwladol, mae angen i ni sicrhau ein bod yn rhagori wrth ddarparu dysg a'n bod yn gyfrifol am ddysg sefydliadol ar y lefel uchaf.

Mater bach fyddai i Amgueddfa Cymru ailadrodd ei pholisïau cyfredol, gan bwysleisio bod pob un o elfennau'r sefydliad yn cyrraedd y nod o fod yn 'sefydliad sy'n dysgu'. Fodd bynnag, fel y nodwyd gan amgueddfeydd eraill sy'n mynd trwy broses bolisi fel hyn, mae dysg yn ysgogi newid. Wrth sicrhau bod dysg yn treiddio i bob rhan o'r sefydliad, gallwn sicrhau bod yr elfennau isod yn cael eu cynnal a'u gwella:

- perthnasedd a safonau'r sefydliad.
- ansawdd a chyraeddiadau'r staff.
- profiad ymwelwyr a defnyddwyr o'r amgueddfa.

Mae'n rhaid bod ein Polisi Dysgu a Mynediad yn gallu dylanwadu ar bolisi a chynllunio corfforaethol, gan gynnwys llunio amcanion strategol yr Amgueddfa'n gyffredinol. Bydd y polisi'n effeithio ar benderfyniadau strategol am adnoddau ac yn helpu wrth flaenoriaethu projectau a gweithgareddau.

1.3 Pum Thema Bolisi

Yn ôl egwyddorion allweddol Polisi Dysgu a Mynediad Amgueddfa Cymru, bydd yn ofynnol i'r sefydliad:

- 1. Ehangu cysylltiadau â chynulleidfaoedd amrywiol a chynnal cyfleoedd iddynt.**
- 2. Buddsoddi mewn lleoliadau a gofodau dysgu.**
- 3. Bod yn arbrofol a gwella'r profiadau dysgu a gynigir.**
- 4. Sefydlu a dathlu dysgu trwy'r sefydliad cyfan a thu hwnt.**
- 5. Cryfhau ein gallu i wneud gwaith ymchwil a chanlyniadau ein gwaith ymchwil er mwyn cael mwy o effaith.**

1.3.1 Ehangu cysylltiadau â chynulleidfaoedd amrywiol a chynnal cyfleoedd iddynt

Bydd Amgueddfa Cymru'n ymdrechu i ddenu amrediad gwirioneddol amrywiol o ddefnyddwyr ac i adlewyrchu amrywiaeth a chymhlethdod cymdeithas ym mhob agwedd ar ein gwaith – o'n polisiau casglu i'n harddangosiadau a'n rhaglennu, ac o'n trefniadau staffio i'n gwaith marchnata.

Byddwn yn ymchwilio i ganfod cynulleidfaoedd newydd posibl ac yn dyfeisio ffyrdd o ddefnyddio syniadau a phrofiadau newydd wrth greu a chynnal rhaglenni ein hamgueddfeydd. Byddwn yn ymwneud â'n hymwelwyr a'n defnyddwyr a byddant hwythau'n ymwneud â ni mewn gwahanol ffyrdd. Mae'r Amgueddfa mewn sefyllfa unigryw i gynnig profiadau dysgu gwahanol.

Byddwn yn ceisio sicrhau cydbwysedd addas rhwng estyn allan at gynulleidfaoedd newydd a mwy amrywiol a'n dymuniad i gryfhau'n cysylltiadau â'n cynulleidfaoedd craidd presennol. Bydd yr Amgueddfa'n gwneud ei gorau i gynnig gwahanol ffyrdd o ddysgu i bobl sy'n dysgu mewn gwahanol ffyrdd. Weithiau, byddwn yn ceisio cynnig cyfleoedd dysgu eang i lawer o bobl; dro arall, byddwn yn canolbwyntio ar berthynas ddofn a pharhaol gyda grŵp neilltuol o ddefnyddwyr.

Defnyddir y Cynlluniau Gweithredu Datblygu Cynulleidfaoedd a luniwyd ers mis Hydref 2005 yn sail ar gyfer y thema hon.

1.3.2 Buddsoddi mewn lleoliadau a gofodau dysgu

Bydd yr Amgueddfa'n ymdrechu i sicrhau bod lleoliadau a gofodau dysgu'n cael eu datblygu i safon uchel bob amser, beth bynnag yw'r cyd-destun.

Mewn amgueddfeydd ac orielau, mae dysgu'n digwydd mewn llawer o leoliadau a gofodau amrywiol. Mae ein hymwelwyr yn dysgu mewn lleoedd penodol – er enghraifft, mewn ystafelloedd dysgu ac astudio. Maent yn dysgu hefyd trwy

brofiad personol a thrwy fyfyrion mewn orielau arddangos ac yn yr awyr agored, yn ogystal â thrwy drafod a gweithio mewn grwpiau mawr. Byddwn yn manteisio i'r eithaf ar yr holl lleoedd dysgu sydd ar gael ym mhob un o'n hamgueddfeydd.

Bydd ein gwaith yn cynllunio ein hamgueddfeydd ac yn buddsoddi ynddynt yn dibynnu ar ein dealltwriaeth o'r profiad o ddysgu. Bydd angen i'n cynlluniau gweithredol a'n cynlluniau buddsoddi cyfalaf dalu sylw i waith cynnal a gwella ein lleoedd dysgu.

Yn ogystal, rydym yn ystyried potensial addysgol lleoedd y tu allan i ffiniau Amgueddfa Cymru – gyda'n partneriaid a chyda sefydliadau eraill, mewn digwyddiadau cenedlaethol fel yr Eisteddfodau, gydag ysgolion ac ar y we.

1.3.3 Bod yn arbrofol a gwella'r profiadau dysgu a gynigir

Bydd yr Amgueddfa'n sicrhau ei bod yn cynnig cyfleoedd dysgu rhagorol.

Gan ein bod yn awyddus i hybu dyfeisgarwch, bydd Amgueddfa Cymru'n mynd ati i ganfod a dathlu arferion gorau ym mhob sector o'n gwaith. Bydd Amgueddfa Cymru'n ddyfeisgar ac yn ddigon dewr i gymryd risg gan ddefnyddio dulliau gweithredu newydd. Byddwn yn arbrofi, gan ddefnyddio prosesau ymchwil a datblygu yn ogystal â dulliau sydd wedi ennill eu plwyf.

Yn ogystal â datblygu arbenigedd ym meysydd casgliadau a phynciau, byddwn yn annog arbenigedd mewn cyfathrebu am gasgliadau ac, yn benodol, yn y ffordd y caiff pobl brofiad o ddysgu.

Er mwyn sicrhau ein bod yn cyrraedd y safonau uchaf, byddwn yn meddwl am ganlyniadau dysgu wrth gynllunio projectau a byddwn yn gwerthuso pa mor effeithiol y bu'r gwaith ar y diwedd.

1.3.4 Sefydlu a dathlu dysgu trwy'r sefydliad cyfan a thu hwnt

Bydd yr Amgueddfa'n cofleidio ac yn dathlu pwysigrwydd dysgu trwy'r sefydliad cyfan a thu hwnt.

Mae amgueddfa ddysg o safon ryngwladol yn dibynnu gymaint ar ansawdd pobl ag ar y casgliadau. Byddwn yn gwerthfawrogi cyfraniadau ein staff, ein gwirfoddolwyr a'n partneriaid at y broses ddysgu. Bydd pobl sy'n arbenigo mewn dysg yn cael cymaint o barch â rhai sy'n arbenigo yn y casgliadau.

Byddwn yn cydnabod bod sawl gwedd ar ddysg. Mae'n cynnwys croesawu profiadau newydd a gwerthfawr, fel prosesau datblygu projectau, yn ogystal â gwybodaeth newydd y mae'n werth ei chasglu a'i deall. Bydd dulliau cyfathrebu mewnol a fforymau trafod yn hanfodol er mwyn cyflawni hyn.

1.3.5 Cryfhau ein gallu i wneud gwaith ymchwil a chanlyniadau ein gwaith ymchwil er mwyn cael mwy o effaith

Bydd yr Amgueddfa'n cryfhau ei gallu i wneud gwaith ymchwil a chanlyniadau ei gwaith ymchwil er mwyn cael mwy o effaith. Bydd hyn yn ychwanegu at ein henw da fel canolfan ddysg o safon ryngwladol.

Mae gwaith ymchwil yn hanfodol er mwyn galluogi pobl i ddeall y casgliadau. Mae'n rhaid i ni ganfod ffyrdd o wneud ein rhaglenni ymchwil, gan gynnwys prosesau datblygu a seilir ar ymchwil, yn fwy gweladwy i'r cyhoedd sy'n ymweld â ni yn ogystal ag i'n cydweithwyr academiaidd. Bydd ein hymwelwyr yn cael gwell profiad o'r Amgueddfa ac yn deall swyddogaeth a gwaith Amgueddfa Cymru'n well os gwelant faint o waith ymchwil sydd y tu ôl i'r casgliadau a ddangosir gennym.

Mae'n rhaid i ni sicrhau cysylltiad mwy effeithiol rhwng ein gweithgareddau dysgu a'n rhaglenni ymchwil er mwyn i'r ddwy elfen gael yr effaith fwyaf.

Wrth fanteisio i'r eithaf ar ein rhaglenni ymchwil a'n cynnyrch, bydd raid i ni ddefnyddio'r cyfryngau mwyaf addas i ledaenu'r wybodaeth, gan gynnwys y we.

2. Y Strategaeth

Mae'r adran hon yn cyflwyno'r strategaeth a ddefnyddir i weithredu'r polisi. Yma, disgrifir pum thema bolisi a fydd yn sylfaen ar gyfer dogfennau gweithredol craidd yr Amgueddfa, yn eu plith:

- Cynlluniau corfforaethol, gweithredol, safleoedd ac adrannol yr Amgueddfa.
- Rhaglenni ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd a'r rhai sy'n dysgu gydag Amgueddfa Cymru.
- Hyfforddiant a gweithgareddau ar gyfer staff Amgueddfa Cymru.
- Rhaglenni a strategaethau ar gyfer grwpiau targed penodol.

Bydd y broses o bennu a blaenoriaethu'r amcanion strategol yn cyfrannu at y gwaith o baratoi cynlluniau'r sefydliad, gan gynnwys yr eitemau penodol a amlinellir yn Adran 3 y ddogfen hon.

2.1 *Ehangu cysylltiadau â chynulleidfaoedd amrywiol a chynnal cyfleoedd iddynt*

Mae gwahanol bobl yn dysgu mewn gwahanol ffyrdd. O safbwynt ein defnyddwyr, gall dysg ychwanegu at gyfleoedd, adeiladu sgiliau a rhoi cyfleoedd i ennill cymwysterau a dod i ddeall y byd o'n cwmpas yn well. Mae gan ein hymwelwyr a'n defnyddwyr bob math o wahanol brofiadau, anghenion a dyheadau. Yn eu plith, mae pobl sy'n dymuno mwynhau eu hunain ac ymlacio, plant ysgol a theuluoedd, ymwelwyr diwylliannol, myfyrwyr ac ysgolheigion, pobl sydd ag anghenion unigol, anabledau a sgiliau arbennig; pobl sy'n ymweld â ni am y tro cyntaf a defnyddwyr rheolaidd.

Tasg yr Amgueddfa yw ennyn diddordeb mewn dysg a bery gydol oes.

Byddwn yn sicrhau bod cyfleoedd dysgu o safon uchel yn cael eu cynnig i'r cynulleidfaoedd ehangaf posibl trwy:

- Arddangosfeydd – gan gynnwys ein casgliadau a'n harddangosfeydd rhyngweithiol.
- Rhaglenni cyhoeddus – gan gynnwys teithiau tywys, sesiynau gweithgareddau a gweithdai, darlithoedd, diwrnodau astudio, cyngherddau a mentrau allestyn.
- Gweithgareddau dehongli byw – gweithdai, trin a thrafod gwrthrychau a gweithgareddau i ysgolion.
- Adnoddau clyweledol, gan gynnwys tywyswyr sain, ffilm, fideo a dyfeisiau llaw.
- Cyhoeddiadau a gwaith ymchwil.
- Dulliau dysgu ar y we gan gynnwys eitemau ac adnoddau.

2.1.1 Ffyrdd o Ddysgu

Mae gan ein hymwelwyr wahanol ffyrdd o ddysgu a dylem dalu sylw i'r rhain wrth ddatblygu cyfleoedd i ddysgu.

Dylem gofio hefyd bod pobl yn hoffi dysgu mewn gwahanol *gyd-destunau* (trwy drafod a dadlau; trwy afael mewn gwrthrychau neu trwy dechnoleg gwybodaeth; trwy fyfyrto ac astudio; trwy actio neu weithgareddau creadigol) a bod angen i ni ddarparu ar gyfer yr amrywiaeth hon.

Dylai fod modd i'n defnyddwyr ddisgwyl cael dewis dysgu ar wahanol *lefelau* (gwahaniaethiad), a chyfleoedd i ddyfnhau eu dysg (symud ymlaen).

Byddwn yn archwilio'n arferion cyfredol, gan edrych i weld beth sy'n rhwystro pobl rhag dysgu, a cheisiwn fod yn fwy croesawgar. Yr amcan fydd newid agweddau, bod yn llai ynysig, datblygu gwell dealltwriaeth o'r bobl sy'n defnyddio'r amgueddfa a rhai nad ydynt yn defnyddio'r amgueddfa, ac annog pobl i chwarae mwy o ran.

2.1.2 Gwahanol Fathau o Gysylltiadau

Byddwn yn meithrin cysylltiadau 'cul a dwfn' a rhai 'eang a bas', trwy, er enghraifft,

- Annog arianwyr i barhau i gefnogi projectau parhaus er mwyn sicrhau profiadau o ansawdd da.
- Defnyddio llwybrau rhithwir ac esbonwyr a hyfforddwyd yn arbennig fel y gellir ymateb mewn ffordd greadigol pan fydd pwysau i reoli neu i gyrraedd llawer o bobl.

2.1.3 Rhwydweithiau a Phartneriaethau

Byddwn yn hybu cysylltiadau a phartneriaethau gyda gwahanol fathau o sefydliadau er mwyn gallu cydweithredu yn y dyfodol. Trwy fod yn fwy dyfeisgar wrth ganfod partneriaid dysgu (allanol a mewnol), a thrwy weithgareddau i gyd-fynd ag arddangosfeydd a drefnir mewn partneriaeth, byddwn yn creu cyfleoedd dysgu, yn gwella'r dysgu ac yn sicrhau bod y projectau'n cyrraedd cynifer o bobl ag y bo modd.

Mae angen sgiliau arbennig i weithio gyda grwpiau a chymunedau sydd wedi'u hallgáu a rhai sy'n agored i niwed. Rydym yn sylweddoli mai'r ffordd orau o hybu cynhwysiad cymdeithasol yw cydweithio ag asiantaethau eraill, gan gynnwys mudiadau gwirfoddol. Fel rheol, mae gan sefydliadau sydd eisoes yn gweithio gyda'r grwpiau neu'r cymunedau a dargedir gennym well dealltwriaeth o'u hanghenion a staff medrus a phrofiadol. Gallwn hybu cynhwysiad trwy bartneriaethau a chydweithio â rhaglenni allanol sydd eisoes mewn bod.

Byddwn yn datblygu rhagor o ffyrdd amrywiol o ryngweithio â phobl yn ein hamgueddfeydd trwy:

- Ysbrydoli 'defnyddwyr' i fod yn 'ddysgwyr' ac yn 'gyfathrebwyr', er enghraifft, tywyswyr ifanc mewn arddangosfeydd newydd.

- Datblygu gwirfoddolwyr i fod yn hwyluswyr gweithgareddau.
- Creu cyfleoedd i ymwelwyr ddehongli ein casgliadau.
- Cydgysylltu a gwerthuso lleoliadau myfyrwyr a phrofiad gwaith er mwyn sicrhau ein bod ni'n elwa o'u dysg nhw.
- Datblygu cronfa o esbonwyr a dehonglwyr arbenigol a hyfforddwyd yn arbennig.

2.1.4 Y Polisi Casglu

Bydd anghenion a diddordebau ein cynulleidfaoedd, ein partneriaethau a'n hymchwylwyr yn dylanwadu ar ein polisi casglu. Byddwn yn ymateb i anghenion a diddordebau cyfredol a rhai'r dyfodol.

Weithiau, mae Amgueddfa Cymru'n casglu defnyddiau cyfeirio a defnyddiau i'w dogfennu ac weithiau mae'n casglu eitemau i'w dangos neu i esbonio themâu. Byddwn yn canfod beth yw cryfderau ein polisi casglu presennol ac yn datblygu polisi casglu hirdymor priodol a fydd yn adlewyrchu amrywiaeth diddordebau ein defnyddwyr.

Bydd y polisi casglu'n adlewyrchu cyfeiriadau deallusol newydd a gynigir gan y Weledigaeth, er enghraifft, hanes cyfoes a chyfleu gwahanol hunaniaethau. Bydd themâu'r Weledigaeth yn fframwaith ar gyfer y gwaith hwn a byddwn yn rhoi blaenoriaeth ar unwaith i'r ffordd yr ydym yn cyfleu 'pobloedd Cymru'.

2.1.5 Rhaglennu

Byddwn yn creu themâu syml, cyson a chlr ar gyfer rhaglenni a dehongli. Er enghraifft, dylai cynaliadwyedd adnoddau naturiol yn y dirwedd a'r economi cyfoes fod yn llinyn yn ein holl amgueddfeydd, ac nid ymhlith ein casgliadau Astudiaethau Natur yn unig. Yn yr un modd, gellir cyfleu creadigrwydd mewn sawl maes e.e. deall hanes a gwyddoniaeth trwy ymdrechion creadigol.

2.1.6 Deialog

Byddwn yn gwrandao ar gynulleidfaoedd a darpar gynulleidfaoedd ac yn trafod â nhw. Mae'n bwysig ein bod yn dysgu mwy am eu hanghenion a'u diddordebau, eu hoff ddulliau dysgu, pa mor eang a pha mor ddwfn yw'r wybodaeth y mae arnynt ei hangen a sut y dymunant gyfathrebu â ni. Er mwyn cefnogi'r maes gweithgarwch hwn, mae angen strwythurau neu fecanweithiau deialog, fel panelau defnyddwyr/cymunedol.

2.1.7 Amrywiaeth Staff

Er mwyn cyflwyno rhaglenni perthnasol ac amrywiol i gynulleidfaoedd amrywiol, mae'n hanfodol ein bod yn cynnal ac yn ehangu gweithlu amrywiol. Byddwn yn sicrhau bod gennym strategaeth benodi hirdymor a fydd yn golygu bod gennym staff amrywiol a chanddynt sgiliau amrywiol. Yn ogystal, byddwn yn ceisio sicrhau amrywiaeth ymhlith ein gwirfoddolwyr a'n partneriaid.

2.2 Buddsoddi mewn lleoliadau a gofodau dysgu

2.2.1 Archwilio Gofodau

Mae ein hamgueddfeydd yn adnodd dysgu cyfoethog. Ein tuedd yn y gorffennol oedd canolbwyntio ar ein horielau a'n 'hystafelloedd addysg' heb sylweddoli, efallai, bod ein hymwelwyr yn dysgu mewn pob math o wahanol ffyrdd a'i bod yn bwysig i ni edrych ar ein hamgueddfeydd a'n casgliadau mewn ffordd fwy holistig. Mae'r trafodaethau ar y Polisi Dysgu a Mynediad wedi dangos bod angen i ni ystyried a thrafod potensial amgueddfeydd i fod yn ganolfannau dysg mewn ffordd fwy soffistigedig, gan dalu sylw i wahanol fathau o leoliadau ac amgylcheddau dysgu.

Yn ogystal â chreu mannau dysgu penodedig, fel Canolfan Ddarganfod Clore yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd a'r Ystordy Ymchwil yn Amgueddfa Wlân Cymru, rydym wedi dechrau arbrofi trwy greu parthau dysgu *y tu mewn i* arddangosfeydd ac ar diroedd ein hamgueddfeydd. Mae'n hymwelwyr wedi croesawu'r datblygiadau hyn a'r defnydd a wneir o adnoddau eraill fel certiau celf, trolïau trafod a gweithfannau gweithgareddau, sy'n eu hannog ac yn eu galluogi i ddod i gysylltiad agosach â'n casgliadau. Rydym wedi adeiladu ar hyn wrth ddatblygu ein horielau yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru ac Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru.

Rydym eisoes wrthi'n ceisio sicrhau rhagor o gyfleoedd dysgu, trwy ddatblygiadau i hwyluso mynediad corfforol at ein casgliadau. Dylem wneud mwy i greu cyfleusterau i'n defnyddwyr gael astudio ac ymchwilio at eu dibenion eu hunain ac i roi gwybod am y cyfleusterau sydd gennym eisoes at y diben hwn.

Gallem ddefnyddio'r tiroedd o gwmpas ein safleoedd, yn enwedig Amgueddfa Wlân Cymru, Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru ac Amgueddfa Lechi Cymru i hybu cyfleoedd i ddysgu, er enghraifft ym maes bioamrywiaeth, ac mae meysydd chwarae awyr agored yn gallu cynnig profiadau addysgol gwerthfawr i blant. Gellid defnyddio ein siopau, ein tai bwyta a'n 'hystafelloedd brechdanau' i hybu cynaliadwyedd a gellid dangos gwaith creadigol ac ymatebion ein hymwelwyr a gwaith artistiaid eraill mewn coridorau a mannau arddangos.

2.2.2 Creu Gofodau Dysgu

Byddwn yn buddsoddi mewn adnoddau, a chynllunio a sefydlu gofodau dysgu ag iddynt wasanaethau addas gan gadw anghenion dysgwyr mewn cof.

Rydym yn trafod gyda grwpiau defnyddwyr er mwyn datblygu syniadau ar gyfer mannau dysgu newydd. Trwy ymgynghori ag ymwelwyr a darpar ddefnyddwyr, byddwn yn sicrhau ein bod yn talu sylw i ddiddordebau ac anghenion y dysgwyr wrth benderfynu ar ddiwyg, darpariaeth a dull cyflenwi'r lleoliadau a'r gofodau dysgu. Er enghraifft, gall fod angen darparu neu wella adnoddau TGCh rhwydweithiol a lleol mewn mannau cyhoeddus neu fuddsoddi mewn dodrefn 'cyfforddus' mewn orielau a gofodau allanol.

Ein blaenoriaeth yw datblygu lleoliadau dysgu sy'n hybu mynediad corfforol, deallusol a synhwyraidd at ein casgliadau gan gynnig profiadau dysgu dyfnach a chyfoethocach i'n hymwelwyr. Ein nod yw creu gwahanol fathau o amgylcheddau

dysgu ar gyfer gwahanol fathau o ddysgwyr, ynghyd â lleoedd amlbwrpas sy'n addas ar gyfer gwahanol dulliau dysgu, diddordebau a lefelau. Er enghraifft, bydd y rhain yn cynnwys mannau ymchwil ac astudio neilltuol ar y naill law a mannau rhaglennu hyblyg ar y llaw arall. Bydd rhai o'n mannau dysgu yn cyflwyno syniadau a chysylltiadau a dylai eraill gynnig cyfleoedd ar gyfer dysgu dyfnach.

Bwriadwn ddefnyddio mannau y tu hwnt i ffiniau ein hamgueddfeydd er mwyn elwa ar botensial dysgu gwahanol leoliadau. Wrth gydweithio â phartneriaid a sefydliadau eraill, mewn digwyddiadau cenedlaethol fel yr Eisteddfodau, yn ein gweithgareddau gydag ysgolion, a thrwy ein presenoldeb ar y we, rydym yn ymdrechu i greu gofodau dysgu rhagorol.

2.2.3 Bywiogi Gofodau

Nid yw lle, ar ei ben ei hun, yn ddigon. Rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd bywiogi mannau dysgu er mwyn cychwyn deialog a chreu cyfleoedd i gwestiynu a herio. Er bod cynlluniau fel certiau celf, gosodweithiau a chyfleusterau TG rhyngweithiol yn cynnig cyfleoedd i ddysgu a chymryd rhan, mae ymgynghoriad y Weledigaeth wedi tanlinellu pa mor bwysig i'n defnyddwyr yw cael trafod gyda phobl go iawn.

Mae'n rhaid i'n hymrwymiad i wella lleoliadau dysgu gynnwys ymrwymiad i ddatblygu'r ffordd yr ydym yn ymwneud â'n hymwelwyr wyneb yn wyneb. Er enghraifft, trwy:

- 'Staffio' mannau dysgu.
- Cynnig hyfforddiant a chymorth i bobl sy'n gweithio gydag ymwelwyr fel y gallant roi'r gwasanaeth gorau iddynt.
- Datblygu rôl cynorthwyr yn yr amgueddfeydd fel hwyluswyr ac esbonwyr.
- Ystyried cyfleoedd i gynnig rhagor o 'ddechongli byw' yn ein hamgueddfeydd.
- Cydnabod bod angen dechongli ar lefelau gwahanol mewn cyd-destunau gwahanol.
- Canfod ffyrdd o gydbwyso'r galw am fynediad at y casgliadau a'r ddyletswydd i ofalu amdanynt.

2.2.4 Gofodau Dysgu Rhithwir

Mae'r we a dulliau eraill o gyfathrebu electronig yn cynnig lluo o gyfleoedd ar gyfer ehangu mynediad ac ychwanegu at brofiadau dysgu. Mae projectau fel SCAN (y fenter Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy, a gyflwynir i raddau helaeth trwy'r we) wedi dangos y potensial ar gyfer cysylltu a rhyngweithio â'n defnyddwyr mewn ffyrdd newydd. Mae adnoddau dysgu eraill ar y we, fel *Plant y Chwyldro* a CD ROMs rhyngweithiol, wedi llwyddo i ddechongli mewn ffyrdd newydd a gwahanol.

Yn ein horiellau, mae adnoddau ar y we ac adnoddau TG fel y rhai sydd yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Abertawe, yn golygu y gellir cyflwyno haenau o wybodaeth i ateb anghenion gwahanol ddefnyddwyr gan annog

rhyngweithio. O ran cyhoeddi, gall y we olygu bod gwybodaeth am ein casgliadau, a defnyddiau ymchwil a dysgu ar gael yn rhatach ac yn ehangach. Byddai modd i ni wneud mwy o ddefnydd o gronfeydd data ein casgliadau, yn neilltuo, yng Nghymru a thu hwnt ond byddai'n rhaid addasu'r data yn gyntaf er mwyn ei ddefnyddio fel adnodd dysgu.

Ar hyn o bryd, mae arbenigedd a gwybodaeth am e-ddysgu a'r we yn gyffredinol wedi'i wasgaru ar draws Amgueddfa Cymru. Gyda dyfodiad y Rhith Amgueddfa bydd raid i ni drefnu bod gan y we ran fwy canolog yn ein ffordd o weithio. Dylid sicrhau ein bod yn rhoi mwy o le i'r we yn ein gwaith ymchwil, wrth ddatblygu orielau ac arddangosfeydd ac mewn gweithgareddau a rhaglenni dysgu.

Er mwyn i'r Amgueddfa wneud y defnydd gorau o'r we ar gyfer dysgu, bydd angen cyfuno gwaith cyhoeddi'r we a mentrau sy'n hybu dysgu, sy'n ymateb i anghenion a diddordebau ein defnyddwyr, ac sy'n cynnig cyfle i gymryd rhan mewn amrediad eang o weithgareddau a gynigir gan yr Amgueddfa. Er mwyn sicrhau hyn, bydd angen i ni helpu staff i ddatblygu sgiliau fel y gallant greu defnyddiau a sicrhau eu bod ar gael yn hwylus, a bydd angen ymroi i gynllunio ac ariannu'r datblygiad hwn.

Tra bod y Rhyngrwyd yn ddull effeithiol o gyfathrebu â phobl y tu allan i'r sefydliad, mae ein *Mewnrwyd* ni yn lleoliad dysgu cyfoethog ar gyfer ein staff. Bwriadwn greu man dysgu ar ein mewnrwyd er mwyn rhannu gwaith gwerthuso, astudio neu ymchwil a wneir yn Amgueddfa Cymru ag eraill ym mhob rhan o'r sefydliad.

Byddwn yn defnyddio hyn nid yn unig i ddisgrifio datblygiadau newydd llwyddiannus ond hefyd i gyflwyno asesiad onest o broiectau na fu mor llwyddiannus. Fel hyn, byddwn yn hybu'r gwaith o greu cymuned ddysgu *y tu mewn i* Amgueddfa Cymru gan feithrin cyd-ddealltwriaeth o arferion da.

2.3 Bod yn arbrofol a gwella'r profiadau dysgu a gynigir

2.3.1 Arloesi

Byddwn yn ymdrechu i fod yn arbrofol; trwy broses o ymchwil a datblygu, byddwn yn annog datblygiad cyfleoedd dysgu o safon uchel ar gyfer ein hymwelwyr a'n defnyddwyr. Gall arloesi olygu newidiadau bach i'r ffyrdd yr ydym yn gwneud pethau ar hyn o bryd, neu ffyrdd newydd o wneud pethau newydd. Mae gwerth i'r ddau beth.

Mae pobl yn dysgu orau pan fyddan nhw'n teimlo'u bod yn cael eu calonogi a'u cefnogi. Mae hyn yr un mor wir am bobl sy'n gweithio mewn amgueddfeydd ag am y defnyddwyr. Dylem wneud i'n staff, ein gwirfoddolwyr a phartneriaid eraill deimlo ein bod yn eu cefnogi ac yn ymddiried ynddynt gan roi iddynt hyder i roi cynnig ar ddulliau newydd a dysgu ohonynt.

Rydym yn dysgu wrth lwyddo. Rydym yn dysgu llawn gymaint pan na fydd pethau'n mynd cystal. Trwy annog *unigolion* i ystyried eu profiad eu hunain, rydym yn eu hannog i wneud eu gwaith yn well. Trwy annog pobl i rannu eu profiad a'u dysg gyda phobl *eraill*, gan gydnabod beth sydd wedi gweithio'n dda a phethau y gellid eu gwella, rydym yn creu cyfleoedd dysgu gwerthfawr ar gyfer y sefydliad cyfan.

A ninnau'n anelu at fod yn sefydliad sy'n dysgu, mae'n hanfodol ein bod yn datblygu ffyrdd newydd o feithrin cyd-ddysgu, ochr yn ochr â dysgu unigol. Dylai hyn gynnwys ymroddiad i ddysgu o fewn timau ein gwahanol broiectau, yn ogystal â chreu dulliau o rannu dysg ac arferion da ar draws ein hamgueddfeydd. Er mwyn datblygu profiadau dysgu o safon uchel, rhaid i ni sicrhau ein bod yn ymwybodol o waith cydweithwyr mewn sefydliadau eraill yn ogystal â'n sefydliad ni'n hunain, a sut rydym yn cymharu â'n gilydd. Gall ymweliadau ag amgueddfeydd eraill, cyfleoedd i rwydweithio â chydweithwyr y tu allan i Amgueddfa Cymru a gwybodaeth am waith ymchwil ac astudiaethau achos a wnaed gan sefydliadau eraill oll yn ffyrdd gwerthfawr o feincnodi arferion da ac annog dyfeisgarwch ac arbrofi.

Yn ogystal, dylem ystyried ffyrdd o gydweithio ag ymarferwyr blaenllaw y tu allan i'r sefydliad fel ffyrdd o ddatblygu arloesedd a sicrhau gwaith o safon uchel.

2.3.2 Gwaith Ymchwil Astudiaethau Ymwelwyr

Mae mwy a mwy o wybodaeth ar gael am ymwelwyr a sut y maent yn dysgu. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon ac yn cyfrannu ati. Byddwn yn seilio ein gweithgareddau dysgu ar waith ymchwil ac ar dystiolaeth. Ni fydd gobaith i ni gyflawni ein hamcanion heb werthfawrogi sut y mae pobl yn dysgu mewn gwahanol amgylcheddau a lleoliadau a deall effeithiau'r pethau sy'n eu rhwystro rhag dysgu.

Byddwn yn holi ein hymwelwyr cyn datblygu orielau, arddangosfeydd, rhaglenni a gweithgareddau, yn ystod y gwaith ac ar ôl ei gwblhau er mwyn sicrhau bod y profiadau dysgu a gynigir gennym yn berthnasol, yn hygyrch ac yn briodol.

Byddwn yn elwa ar waith ymchwil i wahanol ddulliau dysgu a dylanwad gwahanol leoliadau dysgu wrth baratoi rhaglenni a phrojectau. Trwy weithdai a hyfforddiant staff, byddwn yn ceisio codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r math hwn o waith fel proses ar gyfer codi safonau. Bydd y gwaith ymchwil hwn, a'i bwyslais ar ansawdd y profiad dysgu, yn ychwanegol at ddulliau gwerthuso sy'n canolbwyntio mwy ar farchnata, a bydd yn cyfrannu atynt.

2.3.3 Gwerthuso

Mae'n rhaid buddsoddi mwy mewn gwerthuso er mwyn cael gwell canlyniadau. Gellir gwneud gwaith gwerthuso mewn sawl gwahanol ffordd, yn cynnwys:

- Defnyddio grwpiau ffocws i asesu cynlluniau ar gyfer y dyfodol (yn cynnwys grwpiau ffocws staff os yw'n briodol)
- Staff mewnol yn gwerthuso ansawdd projectau na fuont hwy ynghlwm wrthynt.
- Defnyddwyr, partneriaid, staff a gwirfoddolwyr yn gwerthuso profiad ymwelwyr yn fewnol ac allanol.
- Gwerthusiad ffurfiol i weld pa mor effeithiol yw eitemau a ddangosir yn yr amgueddfeydd o ran cyfleu gwybodaeth i ymwelwyr a chreu argraff arnynt.

Wrth werthuso, byddwn yn ystyried y gwahanol ffyrdd sydd gan ddefnyddwyr o gael profiad o'r amgueddfa. Bwriadwn ddefnyddio gwaith ymchwil Astudiaethau Ymwelwyr a gwaith gwerthuso i helpu ein staff, ein gwirfoddolwyr a'n partneriaid i edrych ar yr amgueddfa o safbwynt yr ymwelwyr. Ein nod yw bod yn amgueddfa sy'n rhoi defnyddwyr yn y canol.

2.3.4 Canlyniadau Dysgu

Byddwn yn cynllunio'n gwaith yn ôl y canlyniadau dysgu. Byddwn yn hybu gwaith o ansawdd da trwy bennu a defnyddio mecanweithiau ar gyfer gosod safonau a chydabod rhagoriaeth. Defnyddir fframweithiau fel 'Buddsoddwyr mewn Pobl' ac 'Annog Addysg' i gynllunio gweithgareddau dysgu a mynediad ac i fesur eu heffaith.

2.4 Sefydlu a dathlu dysgu trwy'r sefydliad cyfan a thu hwnt

2.4.1 Sicrhau bod Dysgu'n Ganolog i'n Gwaith

Byddwn yn sicrhau bod dysgu'n ganolog i'n gwaith ac yn ceisio elwa i'r eithaf ar gyfleoedd dysgu ym mhopeth a wnawn. Bydd timau projectau'n nodi'n glir beth yw eu hamcanion addysgol a'u cynulleidfaoedd targed ac, wrth gynllunio projectau, byddwn yn talu sylw i ddiddordebau ac anghenion ein cynulleidfaoedd targed, eu gofynion o ran mynediad a'u dulliau dysgu. Felly, byddwn yn cyflwyno cynlluniau a fydd yn sicrhau bod mynediad a dysgu ymhlith swyddogaethau craidd yr Amgueddfa.

Byddwn yn pwysleisio sut y gall ein holl staff helpu pobl i ddysgu a byddwn yn cefnogi'r staff wrth iddynt feithrin sgiliau addysgu. Dylid nodi sut y gall y bobl sy'n gweithio yn ein hamgueddfeydd elwa ar gyfleoedd dysgu mewn gwahanol weithgareddau trwy'r sefydliad cyfan.

2.4.2 Hyrwyddo a Dathlu'r Amgueddfa fel Canolfan Ddysg

Byddwn yn codi ymwybyddiaeth o'r ffordd y mae ein hamgueddfeydd yn cyfrannu at ddysg a lles cymdeithasol unigolion a chymunedau, a byddwn yn dangos y lles a wnawn i fywydau pobl. Byddwn yn rhoi gwybod i'n hymwelwyr a'n defnyddwyr am y gwaith a wnawn yn darparu dysg anffurfiol, ffurfiol a gydol oes. Byddwn yn tynnu sylw Llywodraeth Cymru a'r awdurdodau lleol at waith ein hamgueddfeydd fel canolfannau dysg a byddwn yn ystyried y posibilïadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth a chydweithredu. Ymdrechwn i ddylanwadu ar gynlluniau cenedlaethol a lleol ac ymateb iddynt mewn meysydd fel addysg a thwristiaeth ddiwylliannol. Y cam cyntaf at roi mwy o bwyslais ar eiriolaeth fydd cyhoeddi dogfen yn tynnu sylw at ein cyfraniad at ddysg.

Trwy ein gwaith gyda Gyrfa Cymru, y Bartneriaeth Addysg Busnes ac eraill rydym eisoes yn cymryd rhan mewn mentrau hyfforddi a gwybodaeth sy'n galluogi'r bobl yr ydym yn cydweithio â nhw i wneud gwell defnydd o botensial ein hamgueddfeydd i ddysgu. Byddwn yn parhau â'r gwaith hwn ac yn ei gryfhau fel bod ein defnyddwyr yn cael profiadau cyfoethocach o ddysgu. Byddwn hefyd yn dysgu oddi wrthynt hwy sut i wneud ein hamgueddfeydd yn fwy perthnasol a hygyrch.

2.4.3 Datblygu ein Sgiliau

Byddwn yn gwella'r ddarpariaeth dysgu a datblygu parhaus i bawb, gan dynnu sylw at bwysigrwydd datblygiad proffesiynol parhaus.³ Bydd hyn yn cynnwys:

- Datblygiad personol a galwedigaethol staff ac eraill sy'n ymwneud ag Amgueddfa Cymru.

³ Defnyddir 'datblygiad proffesiynol parhaus' yma i ddisgrifio gweithgareddau sy'n cyfrannu at ddatblygiad gwirfoddolwyr a phartneriaid, yn ogystal â staff. Nid cau gwirfoddolwyr allan yw bwriad y gair 'proffesiynol' ond, yn hytrach, cyfleu'r ffaith ein bod yn anelu at y safonau uchaf.

- Cydnabod, defnyddio a gwella'r arbenigedd mewnol sydd gennym eisoes.
- Adolygu Perfformiad a Datblygiad gyda'r amcanion yn cynnwys amser ac adnoddau ar gyfer datblygu sgiliau a datblygiad creadigol.
- Cefnogi staff i ddysgu'n unigol.
- Cynllunio a blaenoriaethu manwl er mwyn creu amser a sicrhau adnoddau ar gyfer dysgu o safon uchel.
- Denu myfyrwyr ac ôl-raddedigion trwy leoliadau gwaith ac astudio.

Bydd hyn yn effeithio ar Strategaeth Hyfforddi'r sefydliad ac ar swyddogaeth y Rheolwyr.

2.4.4 Strategaethau Ehangach ar gyfer Hyfforddi a Datblygu

Mae angen i ni greu rhagor o gyfleoedd i rannu sgiliau a neilltuo rhagor o amser ac ynni i ddysgu oddi wrth ein gilydd ar draws yr amgueddfa. Gellir gwneud hyn trwy:

- Hyfforddi cydweithwyr.
- Mentora a hyfforddi (*coaching*).
- Annog cysgodi yn y gwaith.
- Defnyddio secondio, gyda chyfle i weithio mewn gwahanol amgylcheddau.
- Ymweliadau a gwaith project.
- Annog gwaith tîm, gan gynnwys timau gwaith traws-swyddogaethol a grwpiau gwella ansawdd.
- Defnyddio gwahanol dechnegau fel hyfforddiant strwythuredig yn y swydd, hwyluswyr dysgu, cylchdroi swyddi a rhwydweithiau proffesiynol.
- Ymateb i'r hyn yr ydym wedi'i ddysgu.
- Cynnig hyfforddiant i eraill fel ffordd o ddatblygu ein sgiliau ni'n hunain.

Gellir defnyddio nifer o'r dulliau hyn ar y cyd â chydweithwyr yn y sector amgueddfeydd ehangach ac mewn sefydliadau eraill.

2.4.5 Sgiliau sy'n Ymwneud â Dysgu

Mae angen i ni hybu datblygiad sgiliau dysgu h.y. sgiliau cyfathrebu â'n cynulleidfaoedd, ymhlith staff mewn gwahanol feysydd gan gynnwys curaduron, dehonglwyr a staff blaen tŷ. Dyma rai enghreifftiau:

- Gwella sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig er mwyn i'r testunau ysgrifenedig a'r arwyddion yn yr amgueddfeydd fod yn fwy darllenadwy.
- Cwrdd a chyfarch – cysylltiad personol â'r ymwelwyr.
- Gwerthuso, gan gynnwys gwerthuso arddangosfeydd.
- Ymchwil ym maes Astudiaethau Ymwelwyr.
- Sgiliau ymgysylltu â'r cyhoedd (cynnal grwpiau ffocws/paneli cynulleidfaoedd).
- Cyfarch grwpiau o ymwelwyr.
- Ymwneud â chyd-academyddion.
- Ysgrifennu ar gyfer y we.
- Sgiliau dehongli, yn enwedig dehongli byw.
- Creu labeli arddangosfeydd.

- Ymwneud ag ymwelwyr sydd ag anableddau.

Mae'r broses o ddatblygu'r 'Weledigaeth' a'r Polisi Dysgu a Mynediad eisoes wedi bod yn gynhyrchol iawn o ran ysgogi trafodaeth am ddysgu. Dylem geisio parhau i adeiladu ar y gwaith hwn, gan symud o edrych ar ddysg fel rhan 'achlysurol' o'n gwaith i sicrhau rhaglen strwythuredig a pharhaus o ddeialog a thrafodaeth, yn enwedig ymhlith 'hyrwyddwyr dysgu' yn yr Amgueddfa.

2.5 Cryfhau ein gallu i wneud gwaith ymchwil a chanlyniadau ein gwaith ymchwil er mwyn cael mwy o effaith

Gwaith ymchwil yw'r math mwyaf sylfaenol o ddysg yn ein hamgueddfeydd ac mae'n sylfaen ar gyfer yr holl weithgareddau eraill. Amcan ein gwaith ymchwil yw dod i ddeall ein casgliadau'n well a, thrwy hynny, allu dehongli eu hystyr yn well i'n cynulleidfia. Heb y ddealltwriaeth hon, ni ellir cydnabod ystyr na phwysigrwydd cymharol ein casgliadau. Mae ein gwaith ymchwil yn sylfaen bwysig iawn ar gyfer cysylltiad pobl â'n casgliadau.

2.5.1 Cymru a'r Byd: Amgueddfa Ymchwil o Safon Ryngwladol

Yn y gorffennol, rydym wedi canolbwyntio ar waith ymchwil sy'n rhoi'r lle canolog i'n casgliadau.

Bu gennym ddatganiad cenhadaeth anffurfiol sef "dweud wrth Gymru am y byd ac wrth y byd am Gymru". Cafodd y dasg hon ei dehongli mewn ffordd wahanol gan bob un o'r adrannau curadurol, yn dibynnu ar natur eu gwahanol gasgliadau. Mae'r adrannau Archaeoleg, Diwydiant a Hanes Cymdeithasol a Diwylliannol wedi canolbwyntio'u gwaith ymchwil ar Gymru ond mae'r Adran Gelfyddyd yn ymdrin â Chymru a'r byd. Bu'r Adran Ddaeareg yn canolbwyntio ar Gymru mewn cyd-destun rhyngwladol ac mae'r Adran Bioamrywiaeth a Bywydeg Gyfundrefnol (BioSyB) yn ceisio cyfrannu at agenda byd-eang.

Mewn rhai achosion, cydnabyddir eisoes bod ein casgliadau a'n harbenigedd gyda'r gorau yn y byd. Yr her sy'n ein hwynebu yw cynnal ein rhagoriaeth yn y meysydd hyn ac ymdrechu i sicrhau ein bod yn cyrraedd safon sydd gyda'r gorau yn y byd mewn meysydd eraill hefyd.

2.5.2 Cysylltiadau Strategol

Mae rhaglen ymchwil yr Amgueddfa'n cyfrannu at waith ymchwil mewn Addysg Uwch yng Nghymru a thu hwnt. Mae staff curadurol yn gweithio mewn partneriaeth ag ymchwilwyr mewn prifysgolion ac ar y cyd â nhw lle bo'n briodol. Yn y gorffennol, yn aml bu ein gwaith ymchwil ni ar ei gryfaf mewn meysydd lle nad yw Prifysgolion yng Nghymru wedi gwneud llawer o waith. Yn ogystal, gan fod gwaith ymchwil amgueddfeydd yn dal i ganolbwyntio ar wrthrychau, arteffactau a sbesimenau a bod Prifysgolion, yn gyffredinol, wedi symud i feysydd mwy damcaniaethol, gall yr Amgueddfa gyfrannu mewn ffordd wahanol a chyflenwol at yr ymchwil.

Er mwyn cryfhau ein harlwy ymchwil, byddwn yn cynnal arolwg i ganfod bylchau yn ein trefniadau ymchwil ac yn ceisio'u llenwi trwy greu partneriaethau strategol a phenodol gyda chyrrff allanol allweddol. Bydd y rhain yn cynnwys prifysgolion ac asiantaethau arweiniol eraill, fel Cyngor Cefn Gwlad Cymru. Y nod fydd creu nifer fach o bartneriaethau o safon uchel.

2.5.3 Gwaith Ymchwil Newydd

Er mai am astudio casgliadau yr ydym yn fwyaf adnabyddus, rydym hefyd yn gwneud ymchwil ym meysydd cadwraeth ac astudiaethau amgueddfaol, gan gynnig cyngor i nifer o gyrff academiaidd yng Nghymru. Byddwn yn ceisio cryfhau ein darpariaeth yn y meysydd hyn a dathlu'r ffaith ein bod yn cynnig arbenigedd o ganlyniad i'n henw da ym maes ymchwil.

Rydym yn ehangu cwrddpas ein hymchwil fwyfwy ac yn gweld manteision mentrau traws-adrannol sy'n elwa ar ddisgyblaethau amrywiol Amgueddfa Cymru. Rydym hefyd yn symud i feysydd newydd ac yn gwneud mwy o waith ymchwil cymwysedig.

Trwy ehangu ein gwaith ymchwil ar draws rhagor o adrannau, byddwn yn cael mwy o sylw fel Amgueddfa Ddysg o Safon Ryngwladol.

2.5.4 Proffil a Lledaenu Gwybodaeth

Er mwyn bod yn fwy dylanwadol, argyhoeddiadol a pherthnasol, byddwn yn ystyried gofynion ein defnyddwyr a'r gymuned ehangach, yn ogystal ag anghenion ein casgliadau, wrth lunio rhaglen ymchwil gytbwys.

Dylem ehangu dylanwad ein hymchwil trwy sicrhau ei fod yn cael ei ddosbarthu trwy'r cyfrwng mwyaf addas, gan gynnwys y we. Gallem wneud mwy o ddefnydd o gyfleusterau fel Canolfan Ddarganfod Clore ac Oriel Cypolwg yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd i ledaenu gwybodaeth am ein gweithgarwch ymchwil.

2.5.5 Cysylltu Gwaith Ymchwil â'n Rhaglenni Dysgu

Er mwyn gwneud y defnydd gorau o waith ymchwil i ddibenion dysgu, rhaid sicrhau bod ein gweithgareddau'n adeiladu ar ddwy sylfaen: yn gyntaf, swyddogaeth y casgliadau ac yn ail, ond yr un mor bwysig, ein perthynas â'n hymwelwyr.

Nid yw swyddogaeth nac effaith y gwaith ymchwil a wnawn ar ein casgliadau bob amser yn amlwg i'n defnyddwyr a'n hymwelwyr. Dylem roi mwy o sylw iddo yn ein harddangosfeydd, ein digwyddiadau, ein cyhoeddiadau a'n hamgueddfeydd ac ar y we.

Byddwn yn defnyddio'n gwaith ymchwil ni a gwaith sefydliadau eraill ym meysydd astudiaethau ac addysgeg amgueddfaol ac astudiaethau ymwelwyr i sicrhau bod sylfaen gadarn i'n gweithgareddau dysgu a'r ffordd y cânt eu rhaglennu.

ATODIADAU

ATODIAD 1: DIFFINIADAU

1.1 MYNEDIAD

Ein nod yw gwneud ein casgliadau, ein harbenigedd, ein rhaglenni a'n gweithgareddau yn fwy hygyrch i'n hymwelwyr, gan dalu sylw i ffactorau a all effeithio ar anghenion a diddordebau unigolion – fel oedran, gallu corfforol a deallusol, lefel addysg, ethnigrwydd, crefydd, statws economaidd/ cymdeithasol a rhyw. Byddwn hefyd yn ystyried defnyddwyr posibl nad ydynt yn gallu neu'n fodlon dod i'r amgueddfeydd yn gorfforol, ac yn anelu at gyrraedd rhagor o bobl trwy ein rhaglen gyhoeddi a'n gweithgareddau allestyn yn ogystal â thrwy fynediad rhithwir, ar ein gwefan ac ar Rhagor.

Mae Amgueddfa Cymru'n canolbwyntio'n benodol ar gael gwared ar rwystrau mewn perthynas â'r tri math isod o Fynediad:

1.1.1 Mynediad Corfforol

Rydym yn mynd i'r afael â rhwystrau corfforol a synhwyrdd er mwyn gwneud ein hadeiladau a'n harddangosfeydd yn fwy hygyrch. Ein dymuniad yw bod ein hymwelwyr yn gallu gweld yr arddangosfeydd a'r eitemau ar yr uchder cywir a gweld labeli ac ysgrifen o'r maint gorau yn y lle gorau. Rydym yn dymuno iddynt allu ffeindio'u ffordd o gwmpas ein hamgueddfeydd a'n tiroedd yn hawdd a'u cael yn llefydd cysurus a chroesawus. Mae'n bwysig bod toiledau, bwyd ac ati, a mannau i orffwys a myfyrio ar gael yn hwylus.

1.1.2 Mynediad Deallusol

Ceisiwn fynd i'r afael â rhwystrau deallusol er mwyn cynnwys ein holl ymwelwyr gan gynnig profiadau sy'n ddealladwy ac yn heriol. Talwn sylw i'r gwahanol brofiadau addysgol, dulliau o ddysgu a ffyrdd o ddeall sydd gan ddefnyddwyr o bob oed.

1.1.3 Mynediad Diwylliannol

Mae Amgueddfa Cymru wedi ymrwymo i gydraddoldeb ac amrywiaeth ac mae'r egwyddorion hyn yn sail i'n gwerthoedd sefydliadol a'n Gweledigaeth. Rydym yn ymwybodol fod y bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau o wahanol gefndiroedd o ran eu diwylliant, eu hethnigrwydd, eu hil a'u rhyw; eu bod yn arddel gwahanol grefyddau a chredoau ac yn amrywio o ran oedran, cyfeiriadaeth rywiol, galluedd corfforol a meddylol. Trwy gydnabod y gwahaniaethau hynny, a'u dathlu, gall yr Amgueddfa sicrhau ei bod yn hygyrch, yn berthnasol ac yn gynrychioladol o bobl Cymru.

Mae'r Amgueddfa yn gweithredu Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb a deddfwriaeth gysylltiedig sy'n sefydlu egwyddorion triniaeth gyfartal yn y gweithle ac wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd.

Mae'r Amgueddfa, fel corff sector cyhoeddus, wedi ymrwymo i gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas decach drwy hybu cydraddoldeb a pherthnasau positif yn ein gweithgarwch bob dydd. Drwy ein polisiâu a gweithdrefnau mewnol, a'n gwasanaethau i'r cyhoedd, rydym wedi ymrwymo i:

- ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd o dan y Ddeddf Cydraddoldeb;
- rhoi hwb ymlaen i gyfle cyfartal rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu;
- meithrin perthynas dda rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu.

Mae Grŵp Amrywiaeth yr Amgueddfa'n cefnogi'r Swyddog Cydraddoldeb wrth brif-frydio cydraddoldeb. Mae aelodau'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o bob cwr o'r sefydliad. Cylich gorchwyl y Grŵp Amrywiaeth yw:

- adolygu'r ddeddfwriaeth gyfredol a'r ddeddfwriaeth sydd yn yr arfaeth er mwyn sicrhau bod yr Amgueddfa yn bodloni ei hymrwymiaidau cyfreithiol.
- adolygu unrhyw agwedd ar weithgarwch yr Amgueddfa i sicrhau nad yw'n gwahaniaethu o ran ei harferion cyflogaeth neu wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd.
- datblygu strategaeth berthnasol a gefnogir gan bolisiau a gweithdrefnau, i'w hystyried gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr.
- cynllunio a darparu hysbysrwydd am fodolaeth a phwrrpas y grŵp er mwyn annog pobl i gynorthwyo gyda'i weithgareddau.
- ceisio cefnogaeth allanol lle y bo'n briodol er mwyn sicrhau bod yr Amgueddfa yn gwybod am y cyngor mwyaf priodol ym maes materion Amrywiaeth.

Rydym wrthi'n cynhyrchu Amcanion Cydraddoldeb a Chynllun Cydraddoldeb Strategol yn unol â'r gofynion deddfwriaethol fydd ar gael ar ein gwefan erbyn 2 Ebrill 2012.

1.2 CYNHWYSIAD CYMDEITHASOL

Yn ôl y Llywodraeth, mae Allgáu Cymdeithasol yn derm llaw fer am yr hyn a all ddigwydd pan fydd pobl neu ardaloedd yn dioddef o gyfuniad o broblemau cydgysylltiedig fel diweithdra, diffyg sgiliau, incwm isel, tai gwael, llawer o droseddu, afiechydon, tlodi a theuluoedd yn chwalu.

Mae Amgueddfa Cymru'n cael arian cyhoeddus ar y sail bod gan bawb hawl i'r cyfle i archwilio'n casgliadau, cael eu hysbrydoli ganddynt, eu mwynhau a dysgu oddi wrthynt. Ers i Lywodraeth Cymru gael ei sefydlu yn 2000, bu cynhwysiad cymdeithasol ymhlith ei phrif flaenoriaethau a gwnaed gwaith datblygu traws-adrannol yn y maes. Yn neilltuol, mae polisiau Llywodraeth Cymru yn adlewyrchu awydd i weld amgueddfeydd yn datblygu ffyrdd mwy effeithiol o gyflawni eu cyfrifoldebau i bobl sydd wedi'u hallgáu yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol, fel rhan o'u gweithgareddau craidd.

Yn 2001-2, comisiynodd Amgueddfa Cymru waith ymchwil gan y Ganolfan Ymchwil Amgueddfeydd ac Oriolau (RCMG) yng Nghaerlŷr yn canolbwyntio ar bobl nad oedd

yn ymweld ag amgueddfeydd. Tynnwyd sylw at anghenion teuluoedd; pobl ifanc; pobl hŷn; lleiafrifoedd ethnig; siaradwyr/dysgwyr Cymraeg a chymunedau C2DE.

Er bod cynhwysiad cymdeithasol, mynediad ac amrywiaeth yn gyfrifoldeb i staff ym mhob rhan o Amgueddfa Cymru, mae ganddynt oblygiadau arbennig i'r adrannau Addysg, Gwasanaethau Ymwelwyr, Marchnata ac Adnoddau Dynol. Ar ôl ymchwilio i'r sawl nad oeddent yn ymweld ag amgueddfeydd, aeth Amgueddfa Cymru ati i adolygu a chryfhau ei bolisiâu a'i strategaethau ym meysydd Addysg, Marchnata, Gwasanaethau Ymwelwyr a Digwyddiadau. Yn ogystal, mae'r Amgueddfa wedi dynodi aelod o'i adran Adnoddau Dynol i fod â chyfrifoldeb neilltuol dros Fynediad ac Amrywiaeth.

Ceisiwn gefnogi mentrau addysgol ar gyfer pobl sydd wedi'u hallgáu yn gymdeithasol, gan gynnwys poblogaethau o Bobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME); pobl ag anableddau (gan gynnwys anableddau dysgu); pobl ar incwm isel a rhai sy'n byw yng nghymunedau tlotaf Cymru; pobl sydd â phroblemau iechyd; rhai sydd heb lawer o sgiliau sylfaenol neu rai sydd o dan anfantais mewn ffyrdd eraill. Rydym yn ymdrechu i ysgogi pobl ac i'w helpu i gael digon o hyder a'r gallu i gymryd rhan mewn gweithgareddau fel ffordd o hybu cynhwysiad cymdeithasol a chyfiawnder cymdeithasol.

ATODIAD 2: Y SEFYDLIAD SY'N DYSGU

2.1 Nodweddion y Sefydliad sy'n Dysgu

- Mae dysgu a myfyrio'n rhan hanfodol o drefniadau a diwylliant y gwaith. Mae dysgu'n rhan naturiol o'r gweithgareddau yn hytrach na'n agwedd ychwanegol, dewisol.
- Mae dysgu'n digwydd ar draws y sefydliad cyfan.
- Mae'r sefydliad yn defnyddio canlyniadau'r dysgu i sicrhau gwell canlyniadau.
- Rhoddir pwyslais ar gyd-destun cymdeithasol y dysgu (yn ogystal â'r unigolyn) ac mae'r sefydliad yn dechrau datblygu ffyrdd o ddysgu gwersi ar y cyd.
- Mae'r sefydliad yn gallu addasu i'r amgylchedd o'i gwmpas.

2.2 Beth mae Sefydliadau sy'n Dysgu yn ei wneud a sut?

- Creu cyfleoedd i ddysgu o brofiad.
- Creu gwybodaeth a dealltwriaeth newydd.
- Cofleidio newid, gan ddod yn fwyfwy abl i addasu.
- Annog a chefnogi pobl i gymryd risg ac i arbrofi.
- Datblygu systemau ar gyfer rhannu gwybodaeth a dysg – a gwneud defnydd o'r systemau hyn.
- Ymateb i anghenion y 'defnyddwyr' (ymwelwyr/dysgwyr).
- Ymdrechu i wella'n barhaus.
- Annog gwaith tîm o safon uchel, gan gynnwys timau gwaith traws-swyddogaethol a grwpiau gwella ansawdd.
- Defnyddio gwahanol 'dechnegau' gan gynnwys hyfforddiant strwythuredig yn y gwaith, mentora, hwyluswyr dysgu, cylchdroi swyddi, ymweliadau, cysgodi yn y gwaith, gwaith project a rhwydweithiau proffesiynol.

2.3 Cwestion Allweddol ar gyfer Sefydliadau sy'n Dysgu

Sut y gallwn fynd ati i ddatblygu gweithgareddau dysgu a'u cynnwys yng ngwead yr hyn a wnawn o ddydd i ddydd?

(addaswyd o www.nelh.nhs.uk/management/mantop/0313legrningorg.doc)

Keep, E and Rainbird, H , *Towards the Learning Organisation* in Reeve, F. Cartwright, M and Edwards, R (eds) 2000 *Supporting Lifelong Learning Vol 2 Organizing Learning*. OU

ATODIAD 3: Y MATHAU O WEITHGAREDDAU DYSGU A GYNIGIR GAN AMGUEDDFA CYMRU

3.1 Dysgu Ffurfiol

Mae'r Amgueddfa'n cynnig rhaglen addysg eang ac amrywiol sy'n denu dros 200,000 o ymweliadau gan ysgolion a cholegau bob blwyddyn, sef tua un rhan o saith o gyfanswm ymwelwyr Amgueddfa Cymru. Mae'r ffigwr hwn yn cymharu'n ffafriol iawn â ffigurau cyrff eraill yng Nghymru (e.e. CADW a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol). Mae'n cymharu'n ffafriol hefyd ag Amgueddfeydd Cenedlaethol mewn rhannau eraill o'r DU. Trefnir y rhaglen ysgolion yn bwrpasol i ateb gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru a gwerthfawrogi ei chyfraniad i'r Cwricwlwm Cymreig.

Ym maes Addysg Uwch, mae ein staff curadurol yn dysgu ar nifer o gyrsiau i fyfyrwyr gradd a chysiau ôl-radd ac mae rhai'n goruchwyllo gwaith myfyrwyr am raddau Meistr a Doethuriaeth. Mae staff curadurol, yn enwedig ym maes y Gwyddorau Naturiol, yn cymryd rhan mewn gweithgareddau meithrin gallu a hyfforddi dramor, mewn cydweithrediad â phrifysgolion, amgueddfeydd cenedlaethol eraill a chyrff anllywodraethol. Bob blwyddyn, mae ein staff yn cymryd rhan mewn dros gant o brojectau ymchwil gan yr Amgueddfa.

Yn draddodiadol, mae cyfraniad yr Amgueddfa at ysgolion a'i gyfraniad i faes Addysg Uwch wedi cael eu cyfrif yn ddau beth ar wahân ond, mewn gwirionedd, maent yn gontinwmm – sy'n cynnig cyfleoedd i symud ymlaen i feithrin sgiliau, dealltwriaeth a gwybodaeth.

3.2 Dysgu Gydol Oes

Mae'r Amgueddfa'n cynnig nifer o wahanol gyfleoedd ar gyfer dysgu gydol oes, gan gynnwys rhaglenni ar gyfer plant cyn oed ysgol, rhaglenni wedi'u hanelu'n benodol at bobl hŷn a dewis eang o gynlluniau dysgu ar gyfer pob oed rhwng y ddau begwn. Ymhlith y gweithgareddau mae darlithoedd, teithiau tywys, digwyddiadau, gweithdai, cyngerddau, perfformiadau a ffilmiau.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu'r Amgueddfa'n canolbwyntio ar ddatblygu cyfleoedd ar gyfer teuluoedd – sef dros hanner ein hymwelwyr. Mae

gweithgareddau dysgu teuluol yn gyfle i oedolion gefnogi eu plant neu ddysgu gyda nhw. Defnyddir certiau celf, troliau trafod, llwybrau gweithgareddau ac adnoddau dysgu eraill yn yr orielau. Ar gyfer oedolion, cynigiwn gyrsiau, dyddiau astudio, seminarau a deunyddiau dysgu a gyhoeddwyd ar y we fel *Llwybrau Llafar a Camau Cymraeg* ar gyfer dysgwyr y Gymraeg.

Cynigir 'dehongli byw' gan ystod amrywiol iawn o staff (dehonglwyr yn Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru ac Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru; crefftwyr yn Amgueddfa Wlân Cymru ac yn Sain Ffagan, tywyswyr dan ddaear yn Big Pit, a chyn-chwarelwyr yn Amgueddfa Lechi Cymru). Mae ymwelwyr o bob oed yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth hwn. Mae rhaglenni a gafodd eu creu'n wreiddiol ar gyfer ysgolion yn cael eu datblygu a'u haddasu ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd, fel y gall amrediad ehangach o ymwelwyr ddysgu trwy drafod a sgwrsio. Dangosodd proses y Weledigaeth yn glir bod y cyhoedd yn awyddus iawn i weld staff yn cael eu datblygu i helpu i wneud casgliadau'r Amgueddfa yn fwy hygyrch iddynt fel y gallant ymwneud a rhyngweithio mwy â nhw. Bydd hyn yn gofyn am ymrwymiad i hyfforddiant.

3.3 Datblygu Cynulleidfaoedd

Adeg cyhoeddi'r Polisi a Strategaeth Dysgu a Mynediad, roedd mentrau Datblygu Cynulleidfaoedd yn cael eu cynhyrchu a'u datblygu'n bennaf gan yr Adran Ddysg ar y cyd â chydweithwyr yn adran Marchnata a Digwyddiadau. Bryd hynny, roedd y gwaith yn canolbwyntio'n bennaf ar y grwpiau a ddaw i'r amlwg drwy waith ymchwil i'r rheini nad oedd yn ymweld a gynhaliwyd ar ran yr Amgueddfa gan Ganolfan Ymchwil Amgueddfeydd ac Orielau Prifysgol Caerlŷr. Roedd y fenter Ar Dir Cyffredin y targedu pobl ifanc 14-24 oed mewn sefyllfaoedd difreintiedig ac yn cyfuno gweithgareddau ac ymchwiliad i agweddau pobl ifanc a sut i ennyn eu diddordeb yn gyffredinol. Roedd yn fodel ar gyfer gwaith datblygu cynulleidfaoedd yn y dyfodol.

Mae strategaethau Datblygu Cynulleidfaoedd ers hynny dan arweiniad Marchnata wedi amlinellu'r camau mae'r Amgueddfa'n bwriadu eu cymryd fel rhan o raglen barhaus i ddenu cynifer â phosibl o ymwelwyr amrywiol a denu cynulleidfaoedd newydd i'n hamgueddfeydd, gan gynnwys trwy ein gweithgareddau dysg. Mae'r strategaeth ar waith ar draws ein safleoedd mewn dull cydgysylltiedig er mwyn ehangu ein sylfaen ymwelwyr ac i fynd i'r afael â thlodi plant, mater uchel ei broffil. Rhoddir pwyslais ar gyrraedd ymwelwyr newydd er mwyn ysgogi newidiadau mewn agweddau ac ymddygiad a thrwy roi rhan i ddefnyddwyr yn y gwaith o ddatblygu gwasanaethau, cyfleusterau a rhaglenni.

3.4 Dysgu mewn Orielau

Mae aelodau o'r Adran Ddysg yn rhan o'r holl dimau project ar gyfer datblygu orielau newydd ac arddangosfeydd ac maent yn cynnig cyngor ar botensial addysgol arddangosfeydd ac arddangosiadau. Caiff rhaglenni ysgolion eu datblygu o gwmpas arddangosfeydd dros dro a rhai parhaol ac, yn aml, caiff rhaglenni dysgu ac adnoddau ar gyfer athrawon a myfyrwyr eu paratoi i gyd-fynd â nhw.

Sefydlwyd Canolfan Ddarganfod Clore yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd i fod yn ofod dysgu neilltuol ar gyfer pobl o bob oed ac mae'n cynnig cyfleoedd ar gyfer dysgu 'ymarferol' yn yr ystyr draddodiadol. Mae wedi dangos pa mor bwysig a phoblogaidd yw'r ffordd hon o ddysgu ac mae wedi dylanwadu ar ddatblygiad cyfleoedd i drafod eitemau mewn mannau eraill. Er bod hyn yn boblogaidd iawn ymhlith plant a theuluoedd ifanc, teimlir ei fod wedi digwydd ar draul mathau eraill o ymchwil ac astudio. Dengys hyn bod angen gwahanol fathau o leoliadau a gweithgareddau dysgu, gan ateb anghenion gwahanol ddefnyddwyr. Mae staff yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd ac yn ein hamgueddfeydd eraill yn ceisio canfod ffyrdd newydd o gyflwyno gofodau ac adnoddau dysgu yn ein horielau a'n tiroedd, fel y ceir profiad mwy cynhwysfawr ac integredig o ddysgu.

3.5 E-ddysgu

Mae'r Amgueddfa'n cynnig nifer o wahanol gyfleoedd e-ddysgu i ysgolion trwy'r we ac i oedolion a'u tiwtoriaid gan ddefnyddio casgliadau'r Amgueddfa i ddatblygu gwybodaeth am ddiwylliant, hanes a'r iaith Gymraeg.

3.6 Datblygu Staff

Mae gan yr Amgueddfa bolisi a gweithdrefn sydd wedi hen ennill eu plwyf ar gyfer ei weithgareddau datblygu a hyfforddi staff. Y conglfeini yw'r broses Adolygu Perfformiad a Datblygiad a'r gweithgareddau cynllunio Corfforaethol, Cyfadrannol ac Adrannol.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae cryn dipyn yn fwy o unigolion a grwpiau staff wedi manteisio ar gyfleoedd datblygu. Yn neilltuol, bu cynnydd yn y gweithgareddau ym maes addysg bellach, datblygiad proffesiynol, rheolaeth a gofal am gwsmeriaid. Mae'r Amgueddfa'n cynnig darpariaeth amrywiol, yn fewnol ac yn allanol, i gwrdd â gofynion hyfforddi ac mae wedi ymrwymo yn y tymor hir i gyflwyno cynllun Buddsoddwyr mewn pobl ym mhob un o'i safleoedd.